LC331

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**DRAFFT**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**DRAFT**

**Rheoliadau Protein Anifeiliaid wedi'i Brosesu (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ei effaith i Benderfyniad y Cyngor 2000/766/EC ynghylch mesurau diogelu mewn perthynas ag enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy a bwydo protein anifeiliaid, a Phenderfyniad y Comisiwn 2001/9/EC ynghylch mesurau rheoli sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi Penderfyniad y Cyngor 2000/766/EC ar waith.

Mae darpariaeth debyg wedi'i gwneud ar gyfer Lloegr, gyda dyddiad dod i rym o 1 Awst 2001 (OS 2001/2376).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae pwyntiau y gellid cyflwyno adroddiad arnynt wedi'u nodi mewn perthynas â'r materion canlynol. Gan hynny, aethpwyd i'r casgliad y dylai'r pwyntiau hyn gael eu cyfeirio at y Gweinidog Cynulliad priodol iddo gyflwyno sylwadau arnynt yn unol â Rheol Sefydlog 11.4

**Rheoliad 2(1) – "Gorchymyn BSE (Rhif 2)"**

Nid yw'r ymddangos bod y term yn cael ei ddefnyddio yn y rheoliadau.

**Rheoliad 2(1) – "golchion"**

Diffinnir hwn i ddwyn yr un ystyr ag sydd i "swill" yng Ngorchymyn Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid 1999, ond erbyn hyn nid yw'n ymddangos bod diffiniad o "swill" i'w gael yng

Ngorchymyn 1999, am fod y diffiniad a oedd i'w weld yn Rheoliad 3(1) o'r blaen wedi'i ddiddymu mewn perthynas â Chymru gan OS 2001/1735 (Cy.122).

**Rheoliad 3(2)(c)**

O gofio'r sylw uchod ynghylch y diffiniad o "golchion", codir y cwestiwn sut y mae'r ddarpariaeth hon (nad yw'n digwydd yn y rheoliadau cyfatebol ar gyfer Lloegr) i gael ei dehongli.

**Rheoliad 10(7)(ch)(ii)**

O gofio mai â mewnforio i Gymru y mae Rheoliad 10(5)-(7) yn ymwneud, gofynnir pam y mae'r gofyniad hwn wedi'i eirio yn nhermau cludo'r deunydd yn uniongyrchol i ffatri "yn yr Aelod-wladwriaeth a gyrchir".

**J H TURNBULL**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

Cyf: LAD 01-01-367

4 Medi 2001